**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

17 Chwefror 2022

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2022**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu nad yw'r offeryn statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod, ac y bydd yn dod i rym ddydd Gwener 18 Chwefror 2022.

Amgaeaf gopi o'r offeryn statudol ac rwy'n bwriadu ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, unwaith y bydd yr offeryn wedi ei gofrestru.

Mae'r offeryn statudol hwn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd a'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr o ganlyniad i ddirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 a'u disodli gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2022 a ddaeth i rym am 04:00 ar 11 Chwefror 2022. Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd a'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yn gosod gofynion ar bersonau sy'n gweithredu gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin ("gweithredwyr").

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd wedi eu diwygio hefyd i ddarparu mai dim ond gwybodaeth benodedig y mae rhaid i weithredwyr nawr ei darparu i deithwyr cyn i daith ymadael ac ar y llong, y cwch neu'r awyren ar wasanaeth teithwyr rhyngwladol.

Mae diwygiadau pellach hefyd wedi eu gwneud i symleiddio'r ddarpariaeth o wybodaeth cyn i daith ymadael ac i ddarparu mai unwaith yn unig y darperir yr wybodaeth honno cyn i daith ymadael. Rhaid darparu'r wybodaeth o leiaf 24 awr cyn i'r daith ymadael os gwnaed yr archeb fwy na 24 awr cyn teithio, neu unrhyw adeg yn y 24 awr cyn teithio os gwnaed yr archeb lai na 24 awr cyn i'r daith ymadael.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal, mae’r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr wedi eu diwygio i roi yn lle’r gyfres bresennol o rwymedigaethau ar weithredwyr rwymedigaeth i gynnal prosesau a systemau digonol i sicrhau bod teithwyr yn meddu ar wybodaeth neu dystiolaeth benodol. Mae’n ofynnol hefyd i weithredwyr gadw unrhyw gofnodion a gwybodaeth sy’n ofynnol i ddangos eu bod wedi cynnal systemau a phrosesau digonol.

Drwy beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod gall y Rheoliadau hyn ddod i rym ar y cyfle cynharaf a pharhau â’r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; oherwydd y dystiolaeth newidiol ar y risg mewn perthynas â’r afiechyd hwn ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gam y gellir ei gyfiawnhau yn yr achos hwn.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services